Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl2421

**Amseru:** Arferol

**Teitl: Arian ar gyfer Ymgyrch Deepdale**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn bwnc sy'n fwyfwy cyffredin yn y newyddion ac ymysg y cyhoedd cyffredinol. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn mynd i'r afael â llawer o'r materion hyn drwy ddefnyddio ffrydiau gwaith presennol a thrwy greu rhaglenni gwaith newydd yn y gofod Trais yn Erbyn Menywod a Merched.

Yn gynwysedig yn y trafodaethau cynyddol o gwmpas Trais yn Erbyn Menywod a Merched y mae adroddiadau am sbeicio diodydd a sbeicio drwy nodwydd wedi dod yn bryder cenedlaethol. Mae'r Heddlu wedi gweld pryder cynyddol ymysg y cyhoedd a rhanddeiliaid, gan gynnwys nifer o gysylltiadau â'r economi nos a darparwyr addysg yn yr ardal heddlu sydd wedi mynegi eu pryderon ynghylch sbeicio diodydd a sbeicio drwy nodwydd. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi derbyn sawl adroddiad sy'n destun ymchwiliad ar hyn o bryd.

Cysylltodd y Cydlynydd Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig a'r Cydlynydd Partneriaeth â'r CHTh yn ddiweddar, gyda golwg ar weithio gyda'r timoedd plismona bro er mwyn cyflwyno offer arbenigol ar gyfer canfod cyffur mewn diodydd ar draws y 4 ardal blismona leol. Bydd adnoddau'n cael eu defnyddio yn ardaloedd yr heddlu lle mae'r bygythiad, perygl a niwed mwyaf yn ystadegol er mwyn sicrhau ein bod ni'n diogelu'r bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed.

Cynigir bod CHTh yn cefnogi cyflwyno Ymgyrch Deepdale drwy gyfrannu £2996 o'r arian a wnaed drwy werthu eiddo y daethpwyd o hyd iddo.

**Argymhelliad:**
**Cyfrannu £2996 tuag at y prosiect o'r gyllideb Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 25.11.2021**